

## DAVIES, RICHARD (1635 - 1708), Cloddiau Cochion, Sir Drefaldwyn, Crynwr

**Enw:** Richard Davies  
**Dyddiad geni:** 1635  
**Dyddiad marw:** 1708  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** Crynwr  
**Cartref:** Cloddiau Cochion  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Thomas Mardy Rees

Ganwyd yn y Trallwng, Sir Drefaldwyn, yn fab rhieni yr oedd ganddynt ystad fechan. Cafodd beth addysg a'i ddwyn i fyny yn egwyddorion yr Eglwys Wladol. Pan oedd tua 12 neu 13 oed dechreuodd ymlynu wrth yr Annibynwyr, gan gael dylanwadu arno gan [Vavasor Powell](#) yn fwyaf arbennig. Yn 1657 troes yn Grynwr, y cyntaf o'r sect honno yn ei ran ef o'r wlad. Cofir amdano heddiw oblegid ei hunangofiant - *An account of the convincement, exercises, services and travels of that ancient servant of the Lord Richard Davies...*, llyfr sydd yn parhau i gael ei gyhoeddi. Yr oedd croeso bob amser i Grynwyr yn Cloddiau Cochion, ei gartref, ac er i Davies gael ei garcharu fwy nag unwaith oblegid ei syniadau crefyddol ni surwyd mo'i ysbryd. Trafaeliodd lawer trwy Gymru a Lloegr i bregethu, ar rai adegau gyda [John ap John](#), [Charles Lloyd](#), Dolobran, a'i frawd [Thomas Lloyd](#). Bu farw 22 Ionawr 1707-8 a'i gladdu yng nghladdfa'r Crynwyr, Cloddiau Cochion.

### Awdur

Y Parchedig Thomas Mardy Rees, (1871 - 1953)

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

T. M. Rees, *A history of the Quakers in Wales and their emigration to North America* (1925)

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [47153872](#)

Wikidata: [Q18559845](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

